Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ystadau cymru

Arwain cydweithredu – un ystad gyhoeddus Cymru
Leading collaboration – one public estate Wales

ARGRAFFIAD UNDEG UN

## Croeso i'ch Rhifyn Arbennig Cynadleddau a Gwobrau o Newyddlen Ystadau Cymru

CYNNWYS


Cyflwyniad y cadeirydd **Tudalen 2**

Gwobrau Ystadau Cymru 2024 **Tudalen 3**

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Asbestos **Tudalen 6**

Cynhadledd Ystadau Cymru **Tudalen 7**

Adroddiad Richard **Tudalen 9**


# Gwobrau Ystadau Cymru 2024

**Yng ngwobrau Ystadau Cymru 2024, bu'n paneli beirniadu arbenigol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, Jayne Bryant AS yn ystyried 11 o geisiadau o ansawdd uchel.**

## Dathlu Llwyddiant

**ENILLYDD**
**Marsh House**



**Prosiect llety â chymorth, dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mewn partneriaeth â Grŵp Pobl a Merthyr Valley Homes.**

Cyhoeddwyd y gwobrau yng **Nghynhadledd Ystadau Cymru 2024 ar 28 Tachwedd** gydag Ysgrifennydd y Cabinet ei hun yn anrhydeddu'r enillwyr.

Parhad ar dudalen 3...

# CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

**Rwyf yn arbennig o falch o'n hunfed rhifyn ar ddeg o gylchlythyr Ystadau Cymru, sy'n ddeunydd darllen hanfodol i bawb sy'n ymwneud ag ystad gyhoeddus Cymru.**



Beverly Owen

## Croeso i rifyn newydd Cylchlythyr Ystadau Cymru – lle rydym yn dathlu enillwyr ein gwobrau ac yn myfyrio ar lwyddiant cynhadledd Ystadau Cymru 2024.

Wrth i ni ddechrau blwyddyn newydd, mae Ystadau Cymru wedi bod yn edrych ar sut y gallwn wneud y mwyaf o'n hymdrechion a chydweithio ymhellach i ddarparu gwasanaethau yn well i bobl Cymru.

Un prosiect sy'n dangos cydweithio o'r fath yw'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth Asbestos, a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn partneriaeth â Grŵp Diogelwch Adeiladau Ystadau Cymru.

Mae'r hyfforddiant wedi'i anelu'n benodol at y rhai sy'n gweithio ar yr ystâd gyhoeddus yma yng Nghymru, ac yn cael ei gynnig ar-lein ac ar draws amrywiol ddyddiadau.

I gael rhagor o wybodaeth am y dyddiadau hyfforddi a sut i archebu, gweler **tudalen 6**.

Bydd ymwelwyr rheolaidd â thudalennau gwe Ystadau Cymru yn sylwi bod nifer o astudiaethau achos arferion gorau wedi'u cyhoeddi ar y safle.

Rydym bob amser yn chwilio am astudiaethau achos newydd sy'n dangos ystadau'n cael eu rheoli'n llwyddiannus, boed hynny'n ymwneud â datgarboneiddio, bioamrywiaeth, diogelwch adeiladau neu drosglwyddo asedau cymunedol. Os oes gennych stori i'w rhannu yna cysylltwch ag Ysgrifenyddiaeth Ystadau Cymru.

Hoffwn groesawu Sian Jones i dîm Ystadau Cymru.  Sian yw pennaeth y tîm Adfywio, Cyflawni Corfforaethol a Strategaeth yn yr Is-adran Lleoedd, a gwn fod Sian yn awyddus i weld mwy o alinio rhwng swyddogaethau Adfywio a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i gynyddu cynaliadwyedd ystad y sector cyhoeddus yma yng Nghymru.

# Gwobrau Ystadau Cymru 2024


**Roedd asesu'r cyflwyniadau a'u cyfyngu i dri phrosiect oedd yn haeddu sylw yn anodd, ond yn y pen draw llwyddwyd i wneud hynny drwy ddadl angerddol (ar brydiau) ac ystyriaeth arbenigol...**

## a'r enillydd yw... Marsh House

Fel y dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, **"Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn mynd i'r afael â heriau sylweddol ym maes tai gydag atebion arloesol sy'n diwallu anghenion uniongyrchol ac yn cyfrannu at ansawdd bywyd a sefydlogrwydd hirdymor."**

Mae'r galw am lety dros dro wedi cynyddu'n sylweddol a chrewyd **Marsh House** i helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

CYN



AR ÔL



CYN



AR ÔL




Cwblhawyd y prosiect ym **mis Mawrth 2024**, ailbwrpaswyd hen Gartref Gofal Preswyl Glan yr Afon yn llety â chymorth dros dro, gan gartrefu **32 o drigolion.**

Mae hyn yn cynnwys **10 lle hostel i bobl ifanc a 22 llety dros dro i oedolion.**

Cafodd y prosiect ei ariannu drwy'r fenter Trawsnewid Trefi, gyda chefnogaeth ychwanegol gan MTCBC, gan greu swyddi a chefnogi busnesau lleol.

At ei gilydd, nod y prosiect oedd darparu datrysiadau tai cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n gwella ansawdd bywyd i breswylwyr gan gefnogi'r gymuned ehangach ar yr un pryd.

CYN



AR ÔL



CYN



AR ÔL



# Gwobrau Ystadau Cymru 2024

## A'r ail yw...
## Gwelliannau i Ganol Tref Corwen



**Cyngor Sir Ddinbych a Phartneriaid**

Meddai Ysgrifennydd y Cabinet, **"Datblygwyd y pecyn prosiect hwn fel rhan o raglen o welliannau ehangach yn Nyffryn Dyfrdwy.**

**Mae'r fenter hon yn cynnwys 4 is-brosiect sydd wedi'u cyflwyno ar Stryd Fawr Corwen a gerllaw iddi, gyda'r nod o wella rhwydweithiau cysylltedd ymwelwyr, asedau canol y dref a thir cyhoeddus rhwng y rheilffordd dreftadaeth newydd a'r Stryd Fawr gan greu man mynediad newydd a gwell i ymwelwyr i safle Treftadaeth y Byd."**

Mae **Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llangollen** wedi agor gorsaf reilffordd dreftadaeth newydd ac mae'r fenter gymdeithasol **Cadwyn Adfywio** wedi cyflawni gwaith allanol i ddiogelu adeilad treftadaeth amlwg yng nghanol y dref gan ddarparu gofod swyddfa, cyfleusterau cymunedol a desgiau poeth i unigolion a busnesau.



Mae gwelliannau eraill yn cynnwys gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym maes parcio'r dref, creu cyfnewidfa fysiau newydd a darparu toiledau cyhoeddus wedi'u hadnewyddu, diolch i fenter trosglwyddo asedau cymunedol.

# Gwobrau Ystadau Cymru 2024

## Gwobr Ganmoliaeth: Ysgol Uwchradd Fitzalan





**Cyngor Dinas Caerdydd a Phartneriaid**

Fel y dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, **"Mae Ysgol Uwchradd Fitzalan yn ysgol uwchradd newydd eithriadol, sy'n darparu cyfleusterau o'r safon uchaf.**

**Mae nodweddion cynaliadwy yn cynnwys ffurf adeiladu effeithlon, dull adeiledd yn gyntaf, cynhyrchion cysgodi rhag yr haul, ffenestri to gwydrog, LEDS a phaneli haul sy'n cyflawni safon Ardderchog BREEAM".**

Roedd yr ysgol ymhlith y cyntaf i ddarparu mannau hyblyg ac addasadwy i addysgu a dysgu'r Cwricwlwm Blaengar Newydd.

Roedd y prosiect yn ymgorffori egwyddorion craidd yr Economi Gwerth Cymdeithasol, gan ganolbwyntio'n gryf ar ymgysylltu â'r gymuned, datblygu cynaliadwy, ac effaith gymdeithasol.

Trwy gymryd dull cynhwysol sy'n hyrwyddo cydweithredu ar draws sectorau, mae'r prosiect wedi creu effaith barhaol sy'n meithrin parch, amrywiaeth ac arloesedd.

Mae hyn yn golygu bod y prosiect yn fwy nag adeiladu yn unig; mae'n symbol o ragoriaeth wrth greu gwerth cymdeithasol ystyrlon.

## WEDI'CH YSBRYDOLI GAN ENILLWYR 2024?

**Ydych chi'n meddwl bod gennych chi brosiectau cydweithredol sy'n cynnig arloesedd a gwelliannau? Bydd y gwobrau'n cael eu lansio eto ym mis Ebrill 2025 felly edrychwch ar y canllawiau a ffurflenni cystadlu newydd ar wefan Ystadau Cymru!**

Gwefan Ystadau Cymru

# HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH ASBESTOS

**Yn newydd ar gyfer 2025 ac yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Sir Caerffili.**



**Wedi'i anelu at sefydliadau yn sector cyhoeddus Cymru ac yn amrywio mewn maint o'r sector Cyngor Tref a Chymuned i GIG Cymru, bydd y cwrs hyfforddi ar-lein 2 awr yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol i'r cynrychiolydd o'r canlynol:**

» Beth yw asbestos a ble y gellir dod o hyd iddo

» Deall y risgiau sy'n gysylltiedig wrth weithio gydag asbestos a'i effaith ar iechyd

» Gofynion deddfwriaethol Rheoliadau Rheoli Asbestos (CAR) 2012

» Pwy all fod yn Ddeiliad Dyletswydd a beth yw eu cyfrifoldebau

» Mathau a chynnwys arolygon asbestos

» Cynllun Rheoli Asbestos

» Gofynion hyfforddi a chyfathrebu.

## DYDDIADAU AC AMSEROEDD HYFFORDDI:

**Dewiswch o un o'r nifer o ddyddiadau sydd ar gael isod:**

**24 Mehefin:**
**9:30 – 11:30am**
Calender link

**22 Gorffennaf:**
**9:30 – 11:30am**
Calender link

**30 Gorffennaf:**
**1 – 3pm**
Calender link

**14 Hydref:**
**9:30 – 11:30am**
Calender link

**28 Hydref:**
**9:30 – 11:30am**
Calender link

**4 Tachwedd:**
**1 – 3pm**
Calender link

**Cost: am ddim i gynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.**

**Amhrisiadwy i'r rhai sy'n defnyddio eich adeiladau:** Gwefan Ystadau Cymru

**Thema'r gynhadledd oedd "Rheoli Risg ar draws yr Ystad Gyhoeddus". Roedd hwn yn thema eang ond un hanfodol i reoli'n llwyddiannus mewn cyfnod o bwysau cynyddol a chystadleuol ar gyllidebau, amser a staffio.**

**Cafwyd pedwar cyflwyniad yn y gynhadledd a gafodd groeso brwd gan y cynrychiolwyr.**



## DIOGELWCH ADEILADU CYDWEITHREDOL

**Cyflwynwyd 'Diogelwch Adeiladau Cydweithredol' gan Gadeirydd Is-grŵp Diogelwch Adeiladau Ystadau Cymru, Neal O'Leary; gyda chefnogaeth Ali Evans o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.**

Amlinellodd Neal waith yr is-grŵp hyd yma, gan sôn am y gwaith diogelwch asbestos a RAAC.

Pwysleisiodd hefyd nad oedd yr is-grŵp yn fodlon ar ddelio â heriau diogelwch wrth iddynt ddod yn amlwg i'r cyhoedd – roedd y grŵp wrthi'n ceisio rhagweld problemau diogelwch adeiladau cyn iddynt ddod yn broblemau mawr.

Rhoddodd Ali Evans ragolwg manwl o'r cyrsiau ymwybyddiaeth asbestos y mae Ystadau Cymru yn eu cynnig yn 2025.

Amlinellodd yn gelfydd y rhesymau pam y dylai staff fod yn ymwybodol o broblemau asbestos, gan gynnwys yr angen i gadw cofnodion manwl; sut i drin y sylwedd marwol hwn yn briodol, a'r hyn oedd angen ei ystyried wrth waredu asbestos.

**Mae rhagor o wybodaeth am waith Is-grŵp Diogelwch Adeiladu Ystadau Cymru ar gael yn:**

**Cylch gorchwyl: Is-grŵp Diogelwch Adeiladau:** **Gwefan Ystadau Cymru**

## YSTYRIED EFFEITHIAU HINSAWDD I GYNYDDU CYDNERTHEDD

**Cyflwynwyd gan Jean-Francois Dulong, Swyddog Polisi Lliniaru ac Addasu i Newid Hinsawdd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac aelod o Is-Grŵp Cynaliadwyedd Amgylcheddol Ystadau Cymru.**

Trafododd Jean-Francois yr angen i ystyried nid yn unig liniaru newid yn yr hinsawdd, ond sut rydym yn dechrau addasu i'r newidiadau hynny sydd bellach yn anochel.

Gyda chyhoeddi **Strategaeth ar gyfer Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru** ym mis Hydref 2024, rydym yn gweld newid sylweddol yn y ffordd y mae risgiau newid hinsawdd yn cael eu hystyried.

Er bod lliniaru newid hinsawdd yn parhau'n hanfodol, mae angen i ni hefyd ystyried sut rydym yn addasu i batrymau tywydd eithafol i sicrhau bod ein cymunedau'n wydn ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

**Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru**

## HERIAU RHEOLI EIDDO'R SECTOR CYHOEDDUS

**Cyflwynwyd gan Alex Gee, Uwch Reolwr Datrysiadau yn y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.**

Amlinellodd y problemau gyda stoc adeiladau sy'n heneiddio; costau cynyddol benthyca a'r angen am ddata "da" i wneud buddsoddiadau craff.

Gwnaeth sylwadau manwl ar yr hyn a oedd yn ddata da ar asedau, gan gynnwys addasrwydd lleoliad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol; defnyddio asedau adeiledig, sensitifrwydd dinesig yr adeilad, costau rhedeg ac yn y blaen.

Mae data o'r fath i'w ddefnyddio i ddatblygu achosion busnes o safbwynt nifer o faterion, nid cyllidebau ar y llwybr troellog i ddyfodol carbon sero-net yn unig.

## CAMPWS RINGLAND – TRAWSNEWID GWASANAETHAU CYMUNEDOL RINGLAND I GEFNOGI ANGHENION Y GYMUNED

**Traddodwyd gan Leah MacDonald o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.**

Rhoddodd Leah rywfaint o gefndir i ardal Ringland yng Nghasnewydd – un o'r 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru gyda phroblemau cysylltiedig â hynny, sef iechyd gwael, disgwyliad oes gwael a chyfradd troseddu uwch na'r cyfartaledd yng ngweddill Casnewydd.

Yna amlinellodd y bartneriaeth waith gyda'r bwrdd iechyd, Cyngor Casnewydd i ddarparu cartrefi newydd i'r ardal a siopau newydd.

Ar yr un pryd, cadw'r mynediad i'r caeau chwarae. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd Hwb Canolfan Gymunedol Ringland sy'n dod â nifer o wasanaethau'r cyngor at ei gilydd ar gyfer y gymuned leol.

Yn olaf, soniodd am Ganolfan Iechyd a Lles newydd 19 Hills sy'n cynnwys mynediad at feddygon teulu a deintydd lleol, gwasanaethau therapi lleferydd a gwasanaethau iechyd rhywiol mewn un lleoliad.



Mae hynny'n golygu adeiladau o ansawdd gwell, integreiddio gwasanaethau, gwell mynediad i gerddwyr a strategaeth gyfathrebu ar y cyd â'r gymuned leol – oll yn rhan o un cynnyrch cydweithredol hirdymor.

## DIOLCH YN FAWR I …

**Yn olaf, hoffai'r Ysgrifenyddiaeth ddiolch i Tom Bowring o Gyngor Bro Morgannwg am fod yn Feistr Seremonïau yn y gynhadledd unwaith eto.**

**Fel bob amser, fe gyflwynodd y gynhadledd yn hyderus, er bod larwm tân wedi tarfu arno.**

# ADRODDIAD RICHARD

## Mae ACPW yn ôl! Newyddion da i bob darllenydd

### Yn 2024 crëwyd yr Is-adran Lle, gan ddwyn y swyddogaethau Adfywio a Tir presennol at ei gilydd.

Gan ddefnyddio dull seiliedig ar leoedd, mae'r adran yn gyfrifol am wneud y mwyaf o asedau cymunedol a diwylliannol, gan gefnogi awdurdodau lleol i addasu adeiladau gwag at ddibenion eraill, cefnogi'r gwaith o arallgyfeirio gwasanaethau trefi, a datblygu mwy o gyfleoedd i ddatgloi safleoedd/cyfleoedd strategol.

Yr Is-adran fydd cartref rhaglenni a ffrydiau gwaith presennol gan gynnwys y Rhaglen Trawsnewid Trefi, y Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau, Ystadau Cymru a Grŵp Gorchwyl a Gorffen Asedau Cymunedol.

Wrth ddod â'n swyddogaethau tir ac adfywio at ei gilydd, rydym yn cydnabod y sgiliau a'r profiad presennol a sut y gallant gael eu defnyddio gyda'i gilydd i wneud cynnydd pellach yn erbyn ein huchelgeisiau.

Rwy'n wirioneddol obeithiol am yr hyn y gallwn ei gyflawni dros y misoedd nesaf.

Nod y rhaglen hon yw ail-lunio canol ein trefi er mwyn adlewyrchu ffyrdd newydd o weithio yn well yn dilyn pandemig COVID.

Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd mewn gweithio gartref ymhlith staff; ffocws diwygiedig ar ddarparu gwasanaethau ar leoedd, yn hytrach na ffiniau cyflenwi gwasanaethau blaenorol; a chefnogi gwaith i ail-ddychmygu ein prif strydoedd, yn dilyn y newid mewn arferion siopa a ddaeth yn sgil pandemig Covid-19.

Does dim angen i mi ddweud wrth gydweithwyr yn y sector cyhoeddus am y pwysau fydd ar gyllid yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae angen i bob un ohonom edrych ar y ffyrdd gorau o ddarparu gwasanaethau o fewn adnoddau cyfyngedig. O fewn yr Is-Adran Lle, penderfynais i ac Ysgrifennydd y Cabinet ailffocysu ACPW fel cynllun ariannu.

**Y newyddion gwych yw y bydd ACPW yn parhau i flwyddyn ariannol 2025-26, ond bydd yn canolbwyntio ar gyllid refeniw yn unig.**

Bydd Ystadau Cymru hefyd yn parhau i ariannu Comisiwn Asedau Cymunedau a phrosiectau i gefnogi gwaith y Bwrdd ac is-grwpiau.

Felly paratowch ar gyfer lansio'r cynllun ariannu ym mis Mai 2025 fel y gallwch wneud y mwyaf o'r gefnogaeth y gallech ei derbyn drwy gydol 2025-26!

Bydd canllawiau a ffurflenni ar gael ar dudalennau gwe YC!

Mae elfennau cyfalaf ACPW wedi'u hailddyrannu i gronfa gyfalaf gyffredinol Llywodraeth Leol, gan alluogi mwy o reolaeth leol dros benderfyniadau ariannu.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51761, ISBN digidol xxx-x-xxxxx-xxx-x
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg